Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe
Swansea Bay University Health Board

# Brechlyn Chwistrell Trwyn y Ffliw

## Mythau yn erbyn Ffeithiau



Diogelwch eich plentyn rhag y ffliw gyda chwistrell gyflym a di-boen

| MYTH | FACT |
|---|---|
| **Nid yw'r Ffliw yn ddifrifol, dim ond annwyd gwael ydyw** | **Nid annwyd gwael yn unig yw ffliw. Gall ffliw achosi salwch difrifol iawn, hyd yn oed mewn plant iach. Bydd angen gofal ysbyty ar rai plant eleni** |
| **Mae'r brechlyn yn rhoi'r Ffliw I chi** | **Ni all y brechlyn chwistrell trwyn roi ffliw i chi. Mae'n cynnwys feirws wedi'i wanhau, a allai achosi trwyn yn rhedeg neu dymheredd ychydig yn uwch am ddiwrnod neu ddau wedyn** |
| **Cawsant ef y llynedd, felly nid oes angen iddynt ei gael eto** | **Gan fod feirysau ffliw yn newid bob blwyddyn, mae'r brechlyn yn newid hefyd. Dyna pam y rhoddir y brechlyn bob blwyddyn er mwyn darparu'r amddiffyniad gorau** |
| **Bydd cael y Ffliw yn rhoi gwell amddiffyniad na'r brechlyn** | **Gall Ffliw wneud plant yn sâl iawn. Mae'r brechlyn yn paratoi'r system imiwnedd yn ddiogel i frwydro yn erbyn y feirws, gan leihau'r risg o salwch difrifol a chymhlethdodau** |
| **Os bydd y plentyn yn tisian ar ôl cael y chwistrell drwynol, ni fydd yn gweithio, felly nid oes unrhyw bwynt** | **Ni fydd tisian ar ôl cael y brechlyn yn effeithio ar ymateb y corff i'r brechlyn** |
| **Mae brechlynnau yn ormod i system imiwnedd y plentyn** | **Mae plant yn cyffwrdd â, yn bwyta ac yn chwarae gyda phethau sy'n gwneud i'w system imiwnedd weithio'n galed iawn. Dim ond rhan fach o'u system imiwnedd sydd angen gweithio er mwyn i frechlynnau fod yn effeithio** |

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â'ch meddyg teulu neu'r Tîm Imiwneiddio ar SBU.Imms@wales.nhs.uk .
Mae gwybodaeth hefyd ar gael gan Iechyd Cyhoeddus Cymru drwy'r cod QR hwn: